Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu

## Adroddiad Cynnydd 2016-17 Cynllun



© Hawlfraint y Goron 2017 WG32504 ISBN digidol: 978-1-78859-130-0

Gorffennaf 2017

## Mynd i'r Afael â Throsedd a Digwyddiadau Casineb - Fframwaith Gweithredu

## Cynllun Cyflawni 2016-17 – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| 1.1 | Byddwn yn parhau i ariannu'r *Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan* ac yn gweithio gyda'r heddlu i weithredu rhaglen gyflawni newydd sy'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar gymunedau lleol. | Mae'r *Rhaglen Graidd Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan* yn darparu gwersi mewn 100% o ysgolion Cynradd ac Uwchradd ledled Cymru. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Chydgysylltydd y Rhaglen a'r Heddlu i adolygu'r cynnwys addysgol, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu tueddiadau a materion cyfredol. |
| 1.2 | Yn ystod 2016-17 byddwn yn parhau i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru. Bydd y swyddogion ychwanegol hyn yn cyflawni llawer o ddyletswyddau yn eu cymunedau gan gynnwys gweithio gyda'u hysgolion lleol i ddarparu rhaglenni addysgol a gwrthdyniadol. | Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu'r buddsoddiad mewn 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18. Mae £16.8 miliwn wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn parhau i ddarparu'r ymrwymiad hwn. |
| 1.3 | Ar y cyd ag ysgolion, awdurdodau lleol a'r Comisiynydd Plant, byddwn yn datblygu *Cod Ymddygiad wrth Deithio* diwygiedig a fydd yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig (yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010), gan gynnwys agenda gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru. | Gan weithio gyda'r Comisiynydd Plant, gan gynnwys dysgwyr ac awdurdodau lleol, rydym wedi datblygu canllawiau statudol newydd ar gyfer y *Cod Ymddygiad wrth Deithio* a chod teithio newydd, i'w cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017. Mae'r Cod newydd yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ac agenda gwrth-fwlio Parchu Eraill Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 1.4 | Byddwn yn parhau i ystyried a oes angen darparu rhagor o gefnogaeth i ysgolion ynghylch adnabod a mynd i'r afael â digwyddiadau hiliol a hybu cydraddoldeb yn yr ystafell ddosbarth. | Yn ystod tymor y gwanwyn 2016, mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd a gwaith ymchwil a wnaed gydag ymarferwyr addysg gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, cynhaliwyd pedwar digwyddiad gweithdy gennym ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru.<br><br>Darparodd y digwyddiadau hanner diwrnod hyfforddiant ar gyfer tua 150 ar nodi a mynd i'r afael â digwyddiadau hiliol yn yr ysgol, terminoleg, a deddfwriaeth Cydraddoldebau. Y diben oedd magu hyder i siarad am faterion a allai fod yn anodd a chynnig ffyrdd ymarferol o herio hiliaeth a hybu cydraddoldeb yn yr ysgol.<br><br>Nid yw'n bosibl cyrraedd yr holl ymarferwyr trwy hyfforddiant y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond mae adborth yn dweud wrthym nad yw ymarferwyr yn hyderus o hyd. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi comisiynu Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i ddylunio a datblygu pedair taflen waith fel cymhorthion syml i'w defnyddio mewn ysgolion i nodi a mynd i'r afael â digwyddiadau hiliol. Byddant yn trafod:<br><br>• Terminoleg<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Cydnabod ac ymateb i hiliaeth yn yr ysgol<br>• Hysbysu am ddigwyddiadau hiliol tybiedig yn yr ysgol |
| 1.5 | Cyhoeddwyd fersiwn wedi ei ddiweddaru o'n cyhoeddiad "Gwrthsafiad a pharch – datblygu cydlyniant cymunedol" (http://gov.wales/topics/educationandskills/pu | Rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i berthynas waith agos gyda Llywodraeth y DU i ddiogelu'r cyhoedd rhag y bygythiad o derfysgaeth ac i gefnogi egwyddorion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| | blications/guidance/respectresilience/?skip=1&lang=cy). Mae'r canllawiau yn nodi'r swyddogaeth sydd gan ysgolion wrth ddatblygu a chefnogi dulliau strategol o hybu a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. Yn dilyn y cyhoeddiad diwygiedig hwn byddwn yn parhau i ystyried a oes angen darparu rhagor o gefnogaeth i'r sector ysgolion wrth ddatblygu eu swyddogaeth cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth o bob math.<br><br>Mae Estyn wedi cynnwys y ddyletswydd Atal ehangach yn ei fframwaith arolygu i ysgolion ac Awdurdodau Lleol (ers mis Medi 2015) ac felly mae'n gallu adrodd ar hyn. | Rydym wedi adnewyddu ein trefniadau CONTEST yng Nghymru i gynnig llwybr clir rhwng strwythurau Rhanbarthol, Cymru a'r DU.<br><br>Mae Caerdydd wedi llwyddo i gaffael cyllid tair blynedd i ddatblygu deunyddiau a hyfforddiant ar gyfer ysgolion cynradd i hybu her a thrafodaeth am eithafiaeth, gan gyfeirio'n benodol at ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.<br><br>Dechreuodd y cyllid ym mis Medi 2016 ac mae'n cynnwys ysgolion cynradd o Gaerdydd, yr Almaen a Slofacia. Daeth athrawon a rheolwyr sy'n cymryd rhan o bob gwlad at ei gilydd yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd ar gyfer cyfres o weithdai i ddatblygu rhaglen fras i ddiwallu anghenion a dibenion lleol.<br><br>Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Cronfa Loteri Fawr o tua £250,000 dros 3 blynedd i ddarparu rhaglen o hyfforddiant mewn ysgolion yng Nghymru ar Islamoffobia a Mewnfudo. |
| 1.6 | Ar ôl darparu'r adnodd addysg - *Cudd* - i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag peryglon cam-fanteisio rhywiol, byddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau addysgol ac asiantaethau eraill â chyfrifoldebau diogelu allweddol i ystyried pa gymorth ychwanegol allai fod yn ofynnol i gryfhau ymateb addysg i gam-fanteisio rhywiol. | Mae ail rownd o hyfforddiant ar adnodd *Cudd* wedi cael ei ddarparu i hyfforddwyr erbyn hyn. Bydd gwerthusiad o'r hyfforddiant hwn (i gael ei gwblhau gan Barnardo's Cymru) yn helpu i benderfynu ar ein camau nesaf yn y maes polisi hwn.<br><br>Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr heddlu ar hyn o bryd ar ddatblygu adnodd newydd ar gyfer ystod oedran iau (10-13 oed) gan fod Cudd wedi ei fwriadu ar gyfer pobl ifanc 14-18 oed. |
| 1.7 | Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu er mwyn darparu neges gref a chyson ar gyfer Wythnos Gwrth-fwlio 2016 gan weithio gyda | Rydym wedi comisiynu Working Word i ddarparu ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a marchnata 12 mis (gan ddechrau gydag wythnos Gwrth-fwlio 2016) i godi ymwybyddiaeth o'r agenda gwrth- |

| | | |
|---|---|---|
| | phartneriaid allanol er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. | fwlio bod “bwlio yn fusnes i bawb”.<br><br>Hyd yn hyn, mae’r ymgyrch wedi cynnwys cyhoeddi hysbysiadau i’r wasg ac erthyglau’n amlinellu arfer gorau, astudiaethau achos a chyfeirio at le gellir dod o hyd i help a chefnogaeth i roi sylw i wrth-fwlio.<br><br>Mae’r gwaith yn parhau. |
| 1.8 | Byddwn yn parhau i annog ysgolion i weithio tuag at ddatblygu perthynas gadarnhaol a llawn parch ymhlith plant a phobl ifanc. I gefnogi hyn byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i nodi a lledaenu arferion gwrth-fwlio da mewn ysgolion. | Rydym wedi bod yn gweithio’n agos gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, plant a phobl ifanc, swyddfa’r Comisiynydd Plant, Estyn, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector (fel Plant yng Nghymru a Sefyll yn Gadarn yn Erbyn Bwlio) i hybu arfer gorau gwrth-fwlio a derbyn adborth ar sut y gall LlC ddatblygu polisi gwrth-fwlio i gefnogi plant a phobl ifanc yn well i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol sy’n dangos parch. |
| 1.9 | Byddwn yn cynhyrchu taflenni sy’n esbonio beth yw trosedd casineb ar gyfer plant a phobl ifanc i gefnogi gwaith yn yr holl wasanaethau eirioli a chynghori i blant ac i roi gwybodaeth yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio 2016. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei gario ar draws i Gynllun Cyflawni 2017-18 a bydd gwaith ar y cyd yn cael ei wneud rhwng cydweithwyr ym meysydd Iechyd, Addysg a Chydraddoldeb a’r Is-adran Ffyniant. |
| 1.10 | Trwy *Gynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru 2016-2020*: byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb a diogelu yn rhan annatod o’r seilwaith chwaraeon yng Nghymru trwy ddarparu cefnogaeth a her i’n sefydliadau partner.<br><br>Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i | **Diogelu** (25 o gampau effaith uchel)<br>• Lefel 3: 14 o 25 (56%)<br>• Lefel 2: 9 o 25 (36%)<br>• Dim Lefel: 2 o 25 (8%)<br><br>Felly mae cyfanswm o 23 o 25 (92%) wedi cyrraedd neu’n gweithio tuag at Lefel 3 (dyma’r lefel uchaf) y Safonau Diogelu |

| | | |
|---|---|---|
| | gefnogi'r holl gyrff llywodraethu chwaraeon a ariennir yng Nghymru i gyflawni Safonau Diogelu (wyth o chwaraeon hyd at lefel 3 a dau arall hyd at lefel 2). | **Cydraddoldeb** (25 o gampau effaith uchel)<br>• Canolradd: 10 o 25 (40%)<br>• Rhagarweiniol: 9 o 25 (36%)<br>• Sylfaen: 5 o 25 (20%)<br>• Dim Lefel: 1 o 25 (4%)<br><br>Felly mae cyfanswm o 19 o 25 (76%) wedi cyrraedd y Safon Ragarweiniol neu Ganolradd<br>Dros y 3 blynedd nesaf, bydd tua 40% o Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol ar eu ffordd i'r lefel Uwch. |
| 1.11 | Bydd Chwaraeon Cymru yn darparu cynllun cyfathrebu Cydraddoldeb mewn chwaraeon a fydd yn hybu amrywiaeth mewn chwaraeon yn gadarnhaol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â digwyddiadau chwaraeon mawr. | Bydd y gwaith hwn yn parhau, mae'r cynllun cyfathrebu hefyd wedi ei alinio â gwyliau a diwrnodau ymwybyddiaeth. E.e. Wythnos iechyd meddwl, Balchder, mis Hanes Pobl Dduon.<br>Cynhaliodd Chwaraeon Cymru weithdy ymwybyddiaeth o bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, wedi ei gynnal gan LGBT Cymru. |
| 1.12 | Byddwn yn parhau i weithredu *Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* ymhellach, ac yn codi ymwybyddiaeth o CCUHP a hawliau plant gyda'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddwn yn gwneud hyn yn bennaf trwy hyfforddiant ac adnoddau penodol sy'n ymwneud â hawliau plant. Mae gennym becyn E-ddysgu CCUHP allanol sydd ar gael ar ein gwefan www.hawliauplant.cymru, ynghyd ag adnoddau eraill. Mae ein holl adnoddau ar gael i'r sector addysg trwy wefan Hwb. | Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â gweithrediad y Mesur hawliau plant drwy'r trefniadau a nodwyd yng *Nghynllun Hawliau Plant 2014.*<br><br>Mae Strategaeth Codi Ymwybyddiaeth 2017-21 yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddatblygu a buddsoddi mewn adnoddau a deunyddiau; ymgyrchoedd marchnata; hyfforddiant ac ymwybyddiaeth; a sicrhau cyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc yn y ffordd y mae llywodraeth genedlaethol a lleol yn gweithio ac mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.<br><br>Ceir dyletswydd hefyd ar y Comisiynydd Plant i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant, a Phlant yng Nghymru i gryfhau ein |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn darparu cyllid am 3 blynedd er mwyn darparu Hyfforddiant CCUHP i sectorau gweithluoedd penodol ledled Cymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | dull o godi ymwybyddiaeth.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £120,000 dros dair blynedd i ddull newydd o ddarparu hyfforddiant CCUHP i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda neu dros blant a phobl ifanc. Mae'r sefydliadau a gontractiwyd yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i greu hyfforddiant CCUHP wedi'i deilwra ar gyfer 9 sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. |
| 1.13 | Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen. Caiff sgiliau plant eu datblygu ym mhob Maes Dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiad dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn dysgu am eu hunain, eu perthynas â phlant eraill ac oedolion yn y teulu a thu hwnt. Maent yn cael eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Maent yn datblygu dealltwriaeth bod gan bobl eraill wahanol anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau.<br><br>Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, er mwyn dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. Dylid datblygu dulliau cadarnhaol i alluogi | Dangosodd y gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen ei fod wedi bod yn effeithiol o ran gwella cyrhaeddiad, llesiant ac agweddau at ddysgu plant.<br><br>Cyhoeddwyd cynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2016 er mwyn cynyddu cysondeb darpariaeth addysgol y Cyfnod Sylfaen ar draws pob ysgol a meithrinfa.<br><br>Mae ymgysylltiad disgyblion yn y Maes Dysgu yn rhagorol, gyda'r ystadegau'n dangos bod 94.5% o ddisgyblion, yn 2016, wedi cyflawni'r Canlyniad disgwyliedig (5 neu uwch) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaenol. Mae'r Maes Dysgu hwn wedi parhau i ddangos y canran uchaf o ddisgyblion yn cyrraedd y Canlyniad disgwyliedig (5 neu uwch), ar draws pob Maes Dysgu, ers eu cyflwyno yn 2012. |

| | | |
|---|---|---|
| | plant i fod yn fwy ymwybodol o'r gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli mewn gwlad amlddiwylliannol fel Cymru, a'u gwerthfawrogi. Byddant yn dod yn fwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n agweddau pwysig ar y diwylliannau o fewn Cymru. | |
| 1.14 | Trwy'r *Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant (2014-17)* mae cyllid wedi ei ddyfarnu i'r 'Taking Flight Theatre Forum' i greu taith ledled Cymru i gyflwyno'r sioe '*Real Human Being*'. Ei nod yw mynd i'r afael â Throseddau Casineb Anabledd drwy leihau nifer yr achosion a chynyddu'r nifer sy'n adrodd am ddigwyddiadau a cheisio addysgu pobl ifanc am yr effaith ar fywydau pobl anabl. Byddwn yn gweithio gyda Taking Flight i sicrhau bod rhagor o ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Taking Flight i annog ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddilyn yr hyfforddiant. | Darparwyd *Real Human Being* i ddisgyblion Blwyddyn 9 mewn ysgolion ledled Cymru. Caniataodd i ddisgyblion holi'r cymeriadau plant anabl ac nad ydynt yn anabl am eu hanabledd neu anabledd tybiedig gan ennill gwybodaeth am y materion a oedd yn effeithio eu bywydau beunyddiol.<br><br>Yn ystod 2016, cynhaliodd y prosiect berfformiadau yng Nghaerdydd, Penarth, Wrecsam, Conwy, Merthyr, Cwmbrân, Ynys Môn, Powys a Fflint. Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys:<br>○ 3 uned Cyfeirio Disgyblion/ysgol arbenigol Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol<br>○ 2 ysgol ag Uned Nam ar y Clyw<br>○ 1 sesiwn ddydd Sadwrn gyda'r Gymdeithas Plant Byddar genedlaethol<br>○ 1 ysgol breifat<br>○ 1 sesiwn ddydd Sadwrn gyda Whizz Kids<br>○ 1 sesiwn ddydd Sadwrn gyda phobl ifanc anabl trwy Plant yng Nghymru a Lleisiau Ifanc<br>○ 2 sesiwn fin nos trwy Wasanaeth Ieuenctid Caerdydd<br>○ roedd 2 o'r ysgolion yn ddwyieithog a 7 ohonynt yn ysgolion sy'n defnyddio'r Gymraeg<br><br>Cymerodd 3705 o blant a phobl ifanc ran yn y prosiect hwn yn eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | hysgolion (blwyddyn 9 a disgyblion mewn ysgolion/ unedau arbenigol yng Nghymru)<br><br>Mae'r adborth o'r daith wedi bod yn gadarnhaol gan ddisgyblion ac athrawon. Roedd y canlyniadau'n cynnwys:<br><br>*Dyma'r nifer a oedd yn gwybod beth oedd troseddau casineb:*<br><br>Ar ddechrau'r dydd roedd xx% o ddisgyblion yn gwybod beth oedd troseddau casineb<br>Ar ddiwedd y dydd roedd xx% o ddisgyblion yn gwybod beth oedd troseddau casineb<br><br>*Dyma'r nifer a oedd yn meddwl eu bod wedi bod yn dyst i droseddau casineb:*<br><br>Ar ddechrau'r dydd roedd xx% o bobl ifanc yn meddwl eu bod wedi bod yn dyst i droseddau casineb<br>Erbyn diwedd y dydd roedd xx% yn sylweddoli nad oeddent wedi hysbysu'n ddigonol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth<br><br>*Y nifer sydd wedi bod yn dyst i droseddau casineb yn erbyn rhywun oherwydd anabledd tybiedig:*<br><br>Ar ddechrau'r dydd roedd xx % yn meddwl eu bod wedi bod yn dyst i droseddau casineb oherwydd anabledd tybiedig<br>Erbyn diwedd y dydd roedd hyn wedi codi i xx%, gan awgrymu unwaith eto diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n drosedd casineb ar sail anabledd<br><br>*Nifer y bobl a oedd yn gwybod beth i'w wneud pe baent yn dioddef neu'n dyst i drosedd casineb* |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ar ddechrau'r dydd roedd xx% o ddisgyblion yn meddwl y byddent yn gwybod beth i'w wneud pe baent yn dioddef neu'n dyst i drosedd casineb<br>Ar ddiwedd y dydd roedd xx% o ddisgyblion yn hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o drosedd casineb.<br><br>Yn 2016-17, mae'r taflenni cartŵn wedi cael eu hail-ddylunio i'w gwneud yn gyfredol a defnyddiwyd y Teamapp gyda chanlyniadau cymysg.<br><br>Roedd y ddrama eleni yn cynnwys presenoldeb cyfieithwyr ar y pryd Iaith Arwyddion Prydain gan ganiatáu i bobl ifanc ddysgu am fynediad i bobl Fyddar.<br><br>Mae ysgolion Cymraeg wedi bod yn llawer mwy parod i gymryd rhan yn y daith eleni sy'n esbonio'r cynnydd i'r ysgolion Cymraeg/dwyieithog yr ymwelwyd â nhw eleni.<br><br>Mae'r prosiect eleni wedi cael ei fyrhau i hanner diwrnod yn hytrach na diwrnod llawn. Mae hyn wedi golygu cynnydd i nifer y perfformiadau ond wedi golygu y bu llai o amser i'r bobl ifanc siarad â'r cymeriadau a'r actorion i archwilio materion.<br><br>Cafwyd y presenoldeb gorau mewn Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i athrawon eleni.<br><br>Diweddarwyd y Pecyn Athrawon ar gyfer 2016 gydag astudiaethau achos newydd a gwybodaeth am yr actorion. Cafodd hyn groeso da ar ffurf copi caled ac USB. Cafwyd ceisiadau am 10 pecyn Cymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 2.1 | Mae Cynlluniau Cyflawni a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned Cymunedau yn Gyntaf yn nodi anghenion y gymuned leol, y camau i fynd i'r afael â nhw a'r modd y bydd pobl leol yn cael eu cynnwys. Maent hefyd yn nodi sut y mae hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac yn adlewyrchu demograffeg a dynameg cymunedau penodol.<br><br>Mae'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi cydweithio'n agos yn y gorffennol â staff timau Cymunedau yn Gyntaf lleol, ledled Cymru, i gryfhau Cynlluniau Cynnwys y Gymuned a Chynlluniau Cyflawni.<br><br>Bydd timau Clystyrau Cymunedau'n Gyntaf yn parhau i weithio gyda Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol i gryfhau Cynlluniau Cynnwys y Gymuned a Chynlluniau Cyflawni i gynyddu a gwella'r ymgysylltiad â grwpiau lleiafrifol, yn benodol, ar draws pob math o nodweddion gwarchodedig. | Mae staff Cymunedau yn Gyntaf a'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn parhau i weithio i gryfhau ymgysylltiad cymunedol.<br><br>Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ei fod yn bwriadu diddymu'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol. Dilynwyd y cyhoeddiad hwn ar unwaith gan gyfnod o ymgysylltiad eang, gan gynnwys partneriaid darparu, y rheini â phrofiad o gymunedau yn gyntaf, grwpiau ar draws y nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector ehangach.<br><br>Ar 14 Chwefror, mewn Datganiad Llafar, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddiddymu'n raddol, erbyn mis Mawrth 2018, a dull newydd o adeiladu cymunedau cydnerth. Bydd y dull newydd yn cynnwys gwaith ar draws Llywodraeth Cymru gyda phwyslais ar gyflogaeth, y blynyddoedd cynnar a grymuso.<br><br>Bydd gweithgarwch ymgysylltu pellach dros y misoedd nesaf wrth i'r dull newydd ac adeiladu cymunedau cydnerth gael ei ddatblygu a'i fireinio. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ar gydlyniant cymunedol a'i swyddogaeth bwysig o fewn cymunedau cydnerth. |
| 2.2 | Yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r *Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig*, er mwyn gwella'r | Cyhoeddwyd y Strategaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig newydd gennym ym mis Tachwedd 2016, ynghyd â chynllun |

| | | |
|---|---|---|
| | ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o awtistiaeth rydym wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i weithwyr proffesiynol. Yn eu plith mae'r *Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth* ar gyfer ysgolion cynradd, sy'n cael ei chyflwyno ledled Cymru. Mae'r adnoddau, sydd ar gael ar y wefan www.asdinfowales.co.uk yn cynnwys rhaglen hyfforddi ar gyfer athrawon a staff cymorth ac adnoddau i ddisgyblion sy'n cynnwys y Cynllun a'r dystysgrif *Uwch-arwr Awtistiaeth*. Yn rhan o'r gwaith o adnewyddu'r cynllun gwaith byddwn yn ymestyn y rhaglen i ysgolion uwchradd ac yn datblygu adnoddau ymwybyddiaeth newydd, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau hamdden. | cyflawni.<br><br>Rydym yn parhau i gefnogi gwefan ASDinfowales a datblygu adnoddau i gynorthwyo pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr.<br><br>Rydym wedi cyflwyno'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth i o leiaf 16 o awdurdodau lleol ac mae o leiaf 5,000 o ddisgyblion yn Uwch-arwyr Awtistiaeth. |
| 2.3 | Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i gefnogi partneriaid chwaraeon ac Awdurdodau Lleol i gyflawni a datblygu'r safonau INsport. Caiff y rhaglen INsport ei rheoli a'i chydgysylltu gan Chwaraeon Anabledd Cymru, sy'n bartner a ariennir i Chwaraeon Cymru.<br><br>Hefyd bydd Chwaraeon Cymru yn cydweithio â Chwaraeon Anabledd Cymru i ddatblygu cynllun i recriwtio a hyfforddi rhagor o hyfforddwyr ac arweinwyr sy'n anabl.<br><br>Gwaith gyda Chyrff Anllywodraethol i ddatblygu Byrddau sy'n gytbwys, yn | Gwaith parhaus gyda Chwaraeon Anabledd Cymru<br><br>Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Cymru, caiff Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol eu cynorthwyo i gyflawni hyn. Mae Egwyddor 4 yn cyfeirio at Fyrddau |

| | | |
|---|---|---|
| | gynhwysol ac yn meddu ar sgiliau. | Amrywiol. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 3.1 | Byddwn yn gweithredu *Teithio at Iechyd Gwell* – Canllawiau i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr ac yn cynnwys byrddau iechyd yn gweithio gydag asiantaethau partner i asesu anghenion iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardaloedd. | Mae gwaith ar y gweill a disgwylir y bydd asesiad o anghenion iechyd yn cael ei gynnal gan bob bwrdd iechyd yn ystod 2017. |
| 3.2 | Byddwn yn codi ymwybyddiaeth darparwyr gwasanaeth o anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol. | Mae gwaith ar y gweill i geisio deall problemau y mae cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn eu cael mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a chyda'r heddlu.<br><br>Trwy ein Cynllun Cyflawni Teithio at Ddyfodol Gwell, byddwn yn ymgysylltu â'r cymunedau hyn i nodi'r anawsterau y maent yn eu hwynebu mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a chyda'r heddlu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid y mae eu gwaith yn effeithio ar y system cyfiawnder troseddol (arweinwyr ymgysylltu'r heddlu/arweinwyr cydraddoldeb carchardai) i nodi ymyriadau ac atebion addas a fydd yn lleddfu problemau. |
| 3.3 | Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i ddarparu cymorth i Chwaraeon ddatblygu eu gwaith wrth gyflawni Safonau Cydraddoldeb mewn Chwaraeon. 10 o chwaraeon i gyflawni lefel ganolradd a 5 o chwaraeon i gyflawni lefel ragarweiniol. | **Cydraddoldeb** (25 o gampau effaith uchel)<br>• Canolradd: 10 o 25 (40%)<br>• Rhagarweiniol: 9 o 25 (36%)<br>• Sylfaen: 5 o 25 (20%)<br>• Dim Lefel: 1 o 25 (4%)<br><br>Felly mae cyfanswm o 19 o 25 (76%) wedi cyrraedd y Safon Ragarweiniol neu Ganolradd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dros y 3 blynedd nesaf, bydd tua 40% o Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol ar eu ffordd i'r lefel Uwch |
| 3.4 | **Prosiect Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**<br><br>**Cydraddoldeb Chwaraeon Cymru**<br><br>Ym mis Mawrth 2016, dyfarnwyd £538,000 i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gan Chwaraeon Cymru i ddarparu prosiect chwaraeon i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.  Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar dri amcan dros ddwy flynedd 2016-2018 :<br><br>**Canlyniad 1: Cynnydd mewn Cyfranogiad**: Bydd rhagor o unigolion o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol gan arwain at welliannau i iechyd a lles.<br><br>**Canlyniad 2: Meithrin Capasiti**: Bydd unigolion a grwpiau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynorthwyo, a chapasiti yn cael ei ddatblygu ym meysydd gwirfoddoli, hyfforddi, llywodraethu ac ariannu er mwyn gwella cynaliadwyedd.<br><br>**Canlyniad 3: Mynd i'r afael ag Anghydraddoldeb**: Bydd sefydliadau chwaraeon prif ffrwd yn y gymuned a chyrff | Prif effaith 2016-17:<br>Ymgysylltiad sylweddol â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig 'newydd', pan nad oedd timau datblygu chwaraeon presennol yn llwyddiannus neu nad oeddent yn ymwybodol o'r grwpiau.<br>Mae prosiectau lleol wedi mynd ati'n ymarferol i greu gweithgareddau/clybiau newydd trwy gyllid Cist Gymunedol.<br>Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael ei ddarparu ar gyfer Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y Cyrff hynny sy'n dymuno cynllunio/ymgysylltu â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, trwy Fforwm Rheolwyr Datblygu Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a Gweithdy Arweinwyr Cydraddoldebau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol.<br><br>• Mae 4 o Fforymau Chwaraeon Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael eu hadnewyddu, gan arwain at ymgysylltu ehangach â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ganiatáu mwy o bwyslais ar waith datblygu a blaenoriaethu anghenion cymunedol.<br><br>• Datblygu gweithgareddau penodol – pêl fasged Ffilipino, sesiynau nofio i fenywod yn unig, dosbarthiadau hunanamddiffyn i fenywod,<br><br>• Datblygu gwirfoddolwyr – ennill dyfarniadau arweinwyr chwaraeon lefel 1 a lefel 2, cyrsiau diogelu a chymorth cyntaf<br><br>• Cefnogi grwpiau sy'n bodoli eisoes i fod yn fwy cynaliadwy. |

| | | |
|---|---|---|
| | anllywodraethol yn datblygu cysylltiadau cryf â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn cryfhau'r ddealltwriaeth ohonynt, ac yn sicrhau mynediad cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cynaliadwy.<br><br>Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar 4 ardal: Casnewydd (Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru), Caerdydd (Race Equality First), Abertawe (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig) a Gogledd Cymru (Cydraddoldeb Hiliol Gogledd-orllewin Cymru), pob un ohonynt yn gweithio gyda phartneriaid lleol. Mae pedwar o swyddogion prosiect wedi eu recriwtio ynghyd â Rheolwr Prosiect, a gyflogir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Caiff y prosiect ei lansio'n swyddogol ganol mis Gorffennaf. | |
| 3.5 | Bydd Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda Grŵp Cydraddoldeb y Cyngor Chwaraeon i ymestyn ei ganllawiau trawsryweddol. | Mae angen diwygiadau cyflawn, parhaus i gadw hyn yn gyfredol a pherthnasol. |
| 3.6 | Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Pecyn Cymorth Trosedd Casineb Tai trwy God Canllawiau Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016-17 a thrwy raglen waith Tai Pawb sy'n cael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y pecyn cymorth yn helpu Darparwyr | Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r *Pecyn Cymorth Trosedd Casineb Tai* trwy God Canllawiau Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2016).<br><br>Ariannwyd Tai Pawb ac mae wedi darparu'r canlynol:<br><br>• Darparwyd dau weithdy Trosedd Casineb o ansawdd uchel i tua |

| | | |
|---|---|---|
| | Tai i sefydlu camau effeithiol pan fo aflonyddu a bwlio yn digwydd ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Tai Pawb. | 40 o unigolion yn rhan o Gynhadledd ASB Cymru Gyfan. Cododd y gweithdy ymwybyddiaeth o faterion allweddol sy’n gysylltiedig â digwyddiadau cynyddol o drosedd casineb ar ôl pleidlais y refferendwm gan awgrymu atebion ymarferol ar gyfer ymdrin â throsedd casineb gan landlordiaid cymdeithasol yn canolbwyntio ar ymatebion sefydliad cyfan<br><br>• Datblygwyd fframwaith safonau ar gyfer asesu effeithiolrwydd mecanweithiau sydd ar waith i fynd i’r afael â digwyddiadau casineb/troseddau casineb mewn cymdeithasau tai yn rhan o Ddyfarniad QED Tai Pawb<br><br>• Codwyd ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â digwyddiadau casineb ar ôl pleidlais refferendwm yr UE trwy ddatganiad o gyflwynwyd i bob Prif Weithredwr a Phrif Swyddog tai, gan rannu arfer da a galw ar sefydliadau tai i gyhoeddi datganiadau yn condemnio casineb ac annog pobl i hysbysu am ddigwyddiadau.<br><br>Darparwyd seminar yn rhannu arfer da yn ymwneud â thai Mudwyr, Ffoaduriaid a Chysylltiadau Hiliol. Roedd 35 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y seminar. Galluogodd y seminar i arfer da gael ei rannu ar bynciau fel: effaith pleidlais y refferendwm ar ddarparu tai i fudwyr, y Cynllun Adsefydlu Syriaid (gan gynnwys atal trosedd casineb), trefnu cymunedau i groesawu ffoaduriaid, herio hiliaeth a gwella cydlyniant cymunedol. |
| 3.7 | Byddwn yn ystyried cyflawni trwy’r argymhellion yn yr *Adroddiad Oedran Cyfiawnder* ynglŷn â throseddau yn erbyn pobl hŷn a datblygu dulliau partneriaeth. | Bydd nifer o’r argymhellion o’r adroddiad *Oedran Cyfiawnder* yn rhai o’r camau yng *Nghynllun Cyflawni’r Fframwaith Troseddau Casineb 2017-18*. Roedd Diverse Cymru yn bresennol yng nghyfarfod Cyfiawnder Troseddol Trosedd Casineb mis Medi i drafod y prosiect a sut y gellid bwrw ymlaen â’r argymhellion. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.8 | Byddwn yn sicrhau bod cyfathrebu ar Hawliau Dynol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau Trydydd Sector, gan gynnwys y Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector. | Trafodwyd Rhaglen Weithredu y Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector, a oedd yn cynnwys cynnig i ddatblygu cynlluniau cyfathrebu ar y cyd ar Hawliau Dynol, yng ngweithgor y Cyngor ym mis Mawrth 2016 a gwnaed penderfyniad i adolygu blaenoriaethau'r Rhaglen Weithredu gyda'r weinyddiaeth newydd. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 4.1 | Byddwn yn parhau i ariannu Cymorth i Ddioddefwyr Cymru i ddarparu hyfforddiant trosedd casineb ledled Cymru (gyda chymorth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Trosedd Casineb) er mwyn:<br>• Creu fersiwn gwasanaeth ieuenctid addas o'r pecyn hyfforddi presennol<br>• Cynnal o leiaf 40 o sesiynau hyfforddiant ar drosedd casineb gyda staff rheng flaen perthnasol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a'r Gwasanaethau Ieuenctid<br>• 4 Sesiwn ar gael i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches / Safleoedd Tai<br>• Archwilio dulliau o greu rhaglen hyfforddi i hyfforddwyr. | Bydd hwn yn cael ei greu yn rhan o'r contract Canolfan Adrodd a Chymorth Troseddau Casineb newydd ar gyfer 2017-2020<br><br>Darparodd Cymorth i Ddioddefwyr 48 o sesiynau ymwybyddiaeth o drosedd casineb ledled Cymru trwy gydol 2016/17.<br><br>Cynigiwyd hyfforddiant gan Gymorth i Ddioddefwyr ar sawl achlysur ond ychydig neu ddim o bobl wnaeth fanteisio arno. Cynhyrchwyd deunydd ar y cyd mewn cydweithrediad â Chyngor Ffoaduriaid Cymru a lansiwyd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb ar gyfer Ceiswyr Lloches a ffoaduriaid.<br><br>Bydd hyn yn cael ei greu yn rhan o'r contract Canolfan Adrodd a Chymorth Troseddau Casineb newydd ar gyfer 2017-2020 |
| 4.2 | Byddwn yn sicrhau bod gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi, gan gynnwys trwy Raglen Ysgolion Cymru Gyfan. | Mae gwaith yn parhau yn rhan o raglen Ysgolion Cymru Gyfan. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb, gwnaeth Heddlu Dyfed Powys gais hefyd i gwmni theatr 'Taking Flight' i gyflwyno eu cynhyrchiad 'Real Human Beings' i ddisgyblion blwyddyn 9 yn eu Heddlu. Nod y cynhyrchiad yw herio troseddau casineb ar sail |

| | | |
|---|---|---|
| | | anabledd a hybu cydnabyddiaeth ac adrodd; mae hefyd yn amlygu materion mynediad ac yn herio tybiaethau pobl ifanc o bobl anabl. Derbyniwyd y mewnbwn gan ddisgyblion blwyddyn 9 mewn ysgolion ym Mhowys, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth ac Ysgol Uwchradd Caereinion. Ymgysylltodd ein Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb yn benodol mewn ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb hefyd.<br><br>Mewn ysgolion yn y gogledd, mae Cwnstabliaid Heddlu Cymunedol yn gweithio mewn ysgolion i ddarparu negeseuon allweddol. Cânt eu cynorthwyo yn y gwaith hwn gan Swyddog Amrywiaeth yr Heddlu. Mae Cwnstabliaid Heddlu Cymunedol Ysgolion yn ymgysylltu'n ymarferol mewn ysgolion lle gallai tensiynau fod yn bresennol ac yn gweithio gydag asiantaethau partner allweddol i roi sylw i unrhyw faterion yn yr ysgol neu yn y gymuned leol<br><br>Mae Heddlu De Cymru wedi cynnal adolygiad trylwyr o Raglen Ysgolion Cymru Gyfan ar y cyd â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod wedi ei alinio'n well â meysydd blaenoriaeth allweddol. Gall Cwnstabliaid Heddlu Cymunedol Ysgolion ddarparu mewnbynnau wedi eu targedu'n well erbyn hyn o ran gwaith atal, ac mae'r gwaith o ymsefydlu'r adolygiad hwn yn parhau.<br><br>Yng Ngwent, mae Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb yn parhau i ymgysylltu â darpariaethau ieuenctid lleol, ysgolion a cholegau. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb, darparodd Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion negeseuon troseddau casineb allweddol ar draws ysgolion yng Ngwent gyda dros 3000 o gysylltiadau â disgyblion. Mae Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb yn ymgysylltu'n ymarferol mew ysgolion lle |

| | | |
|---|---|---|
| | | gallai tensiynau fod yn bresennol ac yn gweithio gydag asiantaethau partner allweddol i roi sylw i unrhyw faterion. |
| 4.3 | Byddwn yn hybu'r defnydd o Becynnau Trosedd Casineb y CPS ar gyfer ysgolion gogledd-orllewin Lloegr gan ysgolion ac athrawon yng Nghymru. | Mae'r CPS wedi bod yn trafod â Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r adnodd hwn. (CPS) |
| 4.4 | Byddwn yn datblygu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y flwyddyn gyfan i hybu negeseuon i fynd i'r afael â Throsedd Casineb a defnyddio tudalennau Twitter a Facebook Cymru gyfan. | Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 16, defnyddiodd Heddlu Dyfed Powys gynllun cyfathrebu gan ddefnyddio rhai negeseuon ar y cyd a hashnodau ar draws Heddluoedd. Defnyddiwyd deunyddiau ymgyrch '*Think for yourself*' a gynhyrchwyd ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2015 yn unol â chais gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae gan Heddlu De Cymru gynlluniau cyfathrebu Uned Reoli Sylfaenol sy'n defnyddio eu staff Cyfathrebu Corfforaethol a swyddogion Troseddau Casineb i sicrhau bod negeseuon ar gyfer y cyhoedd am droseddau casineb yn fater o drefn ac yn rhan o fusnes beunyddiol. Rhoddodd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb esiampl o amlder eu hallbynnau ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Defnyddiwyd cyfrif twitter Cymru gyfan yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Mae Heddlu Dyfed Powys wedi arwain datblygiad calendr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru gyfan, gan nodi dyddiadau allweddol ar gyfer pob mis a chysylltu â rhagor o wybodaeth (er enghraifft BHM, HMD). |
| 4.5 | Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2016, byddwn yn datblygu Ymgyrch Ymwybyddiaeth genedlaethol sy'n gyson ac | Cwblhawyd hyn gan Heddlu Dyfed Powys yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb gan ddefnyddio deunyddiau a negeseuon '*Hate Crime is Wrong. Report it*' a *Think for yourself* |

| | | |
|---|---|---|
| | sydd wedi'i chyd-gysylltu. | Cymru gyfan.<br><br>Defnyddiwyd deunyddiau Cymru gyfan unwaith eto yn ystod yr wythnos a rhannwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol gyda Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol, a oedd hefyd yn rhan o drafodaethau ar bwyslais ymgyrch eleni. Cefnogwyd prif ddigwyddiad Gwent gan y Cydgysylltwyr ac anogwyd cyfranogiad gan deuluoedd lleol o Syria ganddynt. |
| 4.6 | Byddwn yn datblygu gwybodaeth ac adnoddau a dargedwyd er mwyn herio mynegiant casineb yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2016. | Diweddarwyd taflenni trosedd casineb yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig gan Lywodraeth Cymru ac fe'u rhoddwyd ar ei gwefan. Lluniwyd a chyhoeddwyd tri chanllaw newydd ar 'iaith casineb ar-lein' yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 16. Cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet drafodaeth Cyfarfod Llawn ar Drosedd Casineb hefyd. |
| 4.7 | Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau trosedd casineb mewn cymunedau gwledig trwy gymorth, mentrau ac eitemau cyfathrebu a dargedwyd. | Mae ymgysylltu gweledig gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cynorthwyo Cymorth i Ddioddefwyr ddarparu. Targedwyd ardaloedd anghysbell yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Cynhaliodd Cymorth i Ddioddefwyr gyfarfodydd gydag arweinwyr cymunedau gwledig hefyd gan ystyried clinigau galw heibio posibl sydd ar waith. Sefydlwyd clinig gawl heibio yn Llyfrgell Llanelli i dargedu ardaloedd ynysig a gwnaeth gwaith ymgysylltu gwledig pellach mewn rhannau gwledig o Went a de Cymru.<br><br>Datblygodd Heddlu Dyfed Powys Gynllun Ymwybyddiaeth a Chyfeirio Trosedd Casineb. Mae'r cynllun wedi ei fwriadu ar gyfer gweithwyr proffesiynol a allai ddod i gysylltiad â dioddefwyr troseddau casineb efallai nad yw'r heddlu yn ymgysylltu â nhw o reidrwydd - yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Daeth dros 100 o bobl i'r mewnbynnau dros y cyfnod o bythefnos, gydag athrawon |

| | | |
|---|---|---|
| | | ychwanegol yn derbyn y mewnbwn yn gynharach yn y flwyddyn. Darperir rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn yn ein hadroddiad yn dilyn Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2016.<br><br>Mae gwaith Heddlu De Cymru i hysbysebu eu cymorth a'u dull o fynd i'r afael â throsedd casineb yn cael ei wneud yn bennaf trwy eu strategaeth cyfathrebu ar lefel heddlu a lefel BUC lleol, gan gynnwys eu gwefan, gwefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, tudalennau Facebook a Twitter, ac ymgysylltu lleol ar lefelau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Thimau Cymdogaeth.<br><br>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru broses ymgynghori sefydledig lle mae nifer o grwpiau cymunedol yn cyfarfod gyda'r heddlu bob tri mis. Trafodir Trosedd Casineb Gwledig ac ymgysylltu a chaiff mentrau eu cynllunio yn y cyfarfod i annog adrodd o bob rhan o'r gogledd. |
| 4.8 | Byddwn yn datblygu deunyddiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i gynyddu cyfraddau adrodd yn yr Economi Liw Nos, gan gynnwys Adrannau Trwyddedu ac ymgyrch ar gyfer gyrwyr tacsi. | Datblygodd Cymorth i Ddioddefwyr sticer Tacsi a threialu gyda dioddefwyr presennol sydd wedi ymateb yn dda. Mae swyddogion Ymgysylltu Lleol yn ne Cymru yn awyddus i gael cymeradwyaeth swyddogol i'r cynllun, ond yn disgwyl i Adran Drwyddedu Caerdydd gytuno. Dosbarthwyd taflenni a phosteri mewn bariau a chlybiau nos Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol hefyd gan gynnig gwybodaeth am y prosiect Trosedd Casineb a'r prosiect Rainbow Bridge.<br><br>Mae Swyddogion Trosedd Casineb a Swyddogion Diogelwch Cymunedol yn Heddlu De Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd trwy fforymau gyrwyr tacsi trwyddedig, yn enwedig yng Nghaerdydd ac Abertawe, i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth, gan gynnwys un gyda Chymorth i Ddioddefwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae ymgyrch Trosedd Casineb Gyrwyr Tacsi Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn rhedeg ers dwy flynedd. Bydd yr Heddlu yn lansio ei Galendrau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ym mis Chwefror 2017. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio mewn bwytai ledled y gogledd.<br><br>Dosbarthwyd deunyddiau ymgyrch wedi'u targedu ar draws LNE Gwent. Cynhaliwyd arolwg trosedd casineb diweddar gyda gweithwyr LNE a nodwyd meysydd i'w datblygu. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu trwy waith yr Adran Diogelwch Cymunedol newydd sy'n dod â swyddogaethau atal trosedd a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth at ei gilydd. |
| 4.9 | Bydd ymgysylltu â Byrddau Iechyd Lleol i hybu adrodd ac i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau mewn meddygfeydd, ysbytai a gwasanaethau ambiwlans. | Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi gwneud y Gwasanaeth Ambiwlans yn ymwybodol o'r gwasanaeth a deunyddiau a ddarparwyd ar gyfer y fflyd. Sefydlwyd clinig galw heibio gyda Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru yn Ysbyty Wrecsam ar gyfer staff sydd wedi dioddef trosedd casineb. Sefydlwyd clinig galw heibio yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, ac fe'i cynhelir ar sail rota gan newid lleoliadau o fewn yr Ysbyty. Yr Adran Iechyd Rhywiol, y Clinig Pobl Ifanc a'r Cling HIV yw'r 3 phrif leoliad. |
| 4.10 | Byddwn yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu creu â Byrddau Diogelu (Oedolion a Phlant) er mwyn gweithio i fynd i'r afael â throsedd casineb, gan gynnwys Trosedd Casineb Anabledd a Throsedd Cymar. | Parhaus |
| 4.11 | Byddwn yn cefnogi'r Grŵp Gweithredu at Droseddau Casineb Anabledd i weithio gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth o drosedd casineb a chymorth trwy gynllun | Bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan Heddlu Dyfed Powys pryd bynnag y gofynnir amdano.<br><br>Mae Heddlu De Cymru wedi cwblhau trwy Swyddogion Trosedd |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflawni sydd wedi'i ddatblygu. | Casineb a grwpiau anabledd lleol.<br><br>Mae Heddlu Gogledd Cymru yn mynychu'r Grŵp ac mae ganddynt grŵp Cymunedol Gogledd Cymru ar wahân i ddatblygu materion yn lleol.<br><br>Mae gwaith ar y gweill yng Ngwent i archwilio pan yw'r awydd yn dal i fodoli i sefydlu grŵp tebyg, wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. |
| 4.12 | Byddwn yn cynhyrchu taflen ac adnoddau i ofalwyr a theuluoedd pobl anabl i gynyddu ymwybyddiaeth o drosedd casineb a throsedd cymar yn ystod Wythnos Gofalwyr. | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daflen wybodaeth *Yr hyn y mae angen i chi ei wybod* ar drosedd casineb i ofalwyr. Cyhoeddwyd hon ar-lein ochr yn ochr â'r wybodaeth am droseddau cyfeillio. |
| 4.13 | Byddwn yn datblygu deunyddiau i gynyddu ymwybyddiaeth o nodweddion troseddau casineb ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus gan ddefnyddio diffiniad hygyrch ac astudiaethau achos i annog adrodd. | Trafodir y math hwn o drosedd casineb eisoes yn neunyddiau/taflenni trosedd casineb Heddlu Dyfed Powys. Maent hefyd wedi llunio taflen Troseddau Cyfeillio ar wahân a ddefnyddir drwy'r Heddlu cyfan.<br><br>Mae'r CPS wedi llunio Datganiad Polisi Cyhoeddus ar Droseddau yn erbyn Pobl Anabl (A phob ffrwd trosedd casineb arall). Disgwylir i'r datganiadau gael eu cwblhau yn dilyn ymgynghoriad, ynghyd â chanllawiau cyfreithiol, ym mis Ebrill 2017 a byddant ar gael ar wefan y CPS.<br><br>Mae Heddlu Gwent yn ceisio cael eglurhad pa un a ddisgwylir diffiniad cenedlaethol. |
| 4.14 | Byddwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o drosedd cymar, gan gynnwys rhoi gwybodaeth well i Swyddogion yr Heddlu ac Ymatebwyr Cyntaf er mwyn sicrhau rhagor o sgiliau ar gyfer adnabod a | Mae Heddlu Gwent wedi cyhoeddi canllawiau ar droseddau cyfeillio ar gyfer eu holl swyddogion. Dosbarthwyd y rhain i'r holl Heddluoedd eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | chefnogi dioddefwyr. | |
| 4.15 | Bydd Pecyn Hyfforddi PolicESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill) yn cael ei ddatblygu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfiawnder troseddol i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid. | Mae cyrsiau Policesol yn parhau i gael eu darparu i deuluoedd o Syria ar draws Gwent. Bydd pecynnau hyfforddi yn cael eu gwneud ar gael ddechrau 2017. Datblygwyd llyfr gwaith erbyn hyn, ac mae'r holl deuluoedd o Syria ar draws y rhanbarth wedi derbyn y mewnbwn. |
| 4.16 | Bydd taflen a ffilm yn cael eu cynhyrchu i roi gwybodaeth i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o drosedd casineb. | Datblygodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru, gyda chymorth gan Heddlu Gwent a Llywodraeth Cymru, lyfryn trosedd casineb ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn benodol. Cyhoeddwyd hwn yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2016. |
| 4.17 | Byddwn yn datblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth wedi eu targedu ar gyfer staff mewn Llety Cychwynnol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. | Cynigiwyd hyfforddiant gan Gymorth i Ddioddefwyr ar sail achlysur ond ychydig neu ddim o bobl wnaeth fanteisio arno. Cynhyrchwyd deunydd ar y cyd mewn cydweithrediad â Chyngor Ffoaduriaid Cymru a lansiwyd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb ar gyfer Ceiswyr Lloches a ffoaduriaid. |
| 4.18 | Yn ystod Wythnos Ffoaduriaid, byddwn yn datblygu dulliau o gyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb mewn cymunedau o bob math. | Cyflwynodd Heddlu De Cymru amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a chyfathrebiad ar gyfer wythnos Ffoaduriaid o dan faner refugeeweek.org.uk/events. |
| 4.19 | I gefnogi ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac i gynyddu ymwybyddiaeth a'r hyder i adrodd am droseddau casineb, byddwn yn sicrhau bod pob safle Sipsiwn a Theithwyr yn cael ymweliad gan Swyddog Cymorth Cymunedol | Cychwynnwyd yn y gogledd-orllewin yn ystod Ch1 ac yng Ngwent yn ystod Ch1, ond ni wnaed gwaith dilynol ar hyn yn Ch2 oherwydd newidiadau staff diweddar. Fodd bynnag, mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi gwneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu ysgafn gyda 'Phobl Cychod Camlas' sydd hefyd yn cael eu dosbarthu o dan gylch gwaith Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gynhaliwyd yn ystod |

| | | |
|---|---|---|
| | yr Heddlu / tîm Plismona Cymunedol lleol. | Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb. Aeth staff i symposiwm Sipsiwn, Roma a Theithwyr hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o brosiectau sy'n digwydd yng Nghymru.<br><br>Mae Heddlu Dyfed Powys wedi gweithredu cynllun Un Pwynt Cyswllt ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ers nifer o flynyddoedd, gyda swyddogion Tîm Plismona Cymdogaeth yn cael eu penodi ar bwyntiau cyswllt penodol ar gyfer ein safleoedd sefydledig ar draws yr Heddlu. Rhoddir y cyfle i swyddogion Un Pwynt Cyswllt fynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol yn ymwneud â materion Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth iddynt godi. Maent hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant Trosedd Casineb yn ystod yr hydref yn 2015.<br><br>Mae gan Heddlu De Cymru swyddog Ymgysylltu Cymunedol sydd mewn cysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, a cheir ymgysylltu rheolaidd gyda'r gymdogaeth hefyd.<br><br>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddau swyddog Amrywiaeth penodol sydd â'r cylch gwaith o ymgysylltu â phob safle yn y gogledd. Maent yn gweithio gyda thimau lleol i sicrhau bod troseddau casineb yn cael eu hadrodd ac i ddeall tensiynau.<br><br>Mae gan Went 2 arweinydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar waith sydd mewn cysylltiad rheolaidd â safleoedd lleol ac yn arwain prosiectau sy'n cynnwys cynllun mentora ar gyfer menywod ifanc o gymunedau Teithwyr, diwrnodau ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer cymunedau a llyfr a ysgrifennwyd gan gymunedau Teithwyr lleol am eu diwylliant a'u hanes. |
| 4.20 | Byddwn yn cofnodi troseddau casineb yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr fel categori penodol o dan hil er mwyn monitro'r | Parhaus. Mae Tîm Archwilio Trosedd Heddlu Dyfed Powys wedi ceisio gwneud y newidiadau perthnasol i'w systemau a thechnoleg gwybodaeth, ac mae'r rhain wrthi'n cael eu cyflawni yn ei adran TG. |

| | | |
|---|---|---|
| | troseddau casineb yr adroddir amdanynt. | Mae Heddlu De Cymru yn parhau i addasu a gwella ansawdd ei ddata o ran trosedd casineb a hysbysu am ddigwyddiadau gan ddefnyddio system rheoli cofnodion NICHE, ac mewn cydweithrediad â heddluoedd NICHE eraill.<br><br>Mae gan Ogledd Cymru Gofnod ar wahân ar gyfer hysbysu am Drosedd Casineb yn erbyn y gymuned Sipsiwn/teithwyr.<br><br>Ledled Gwent, mae monitro'n bosibl oherwydd niferoedd isel ac archwilio wythnosol â llaw. O fis Ebrill, mae newid i systemau cofnodi 18+1 ar draws heddluoedd y DU yn golygu y bydd ethnigrwydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dechrau cael ei gofnodi. |
| 4.21 | Yn ystod Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, byddwn yn datblygu dulliau cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb. | Hyrwyddwyd ffilmiau Celfyddydau Romani gan Gymorth i Ddioddefwyr yn ystod Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dosbarthwyd dulliau Chwalu Mythau i bartneriaid a darparwyd sesiynau briffio i staff Cymorth i Ddioddefwyr yng Nghymru. |
| 4.22 | Byddwn yn datblygu dulliau cyfathrebu yn ystod Mis Hanes Bobl Dduon i gynyddu ymwybyddiaeth o 'hiliaeth bob dydd' a throseddau casineb ar draws cymunedau. | Datblygwyd negeseuon trwy ymgyrch Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb ac fe'u rhannwyd mewn fformat dwyieithog i bob Heddlu. Arweiniodd rhwydwaith cymorth Gwent ddigwyddiad rhwydwaith sector cyhoeddus Cymru gyfan yn canolbwyntio ar herio hiliaeth a gwahaniaethu yn y gweithle, wrth recriwtio ac wrth ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mewn partneriaeth â Heddluoedd eraill Cymru, mae Heddlu Gwent wedi datblygu tudalen heddlu benodol ar wefan Mis Hanes Pobl Dduon erbyn hyn. |
| 4.23 | Byddwn yn defnyddio data cyfunol ar droseddau casineb Islamoffobig a gwrth-Semitig i ymgysylltu â mosgiau, synagogau a | Cyfarfu Cymorth i Ddioddefwyr ag Imams Caerdydd a chafodd SLA ysgafn gyda 'Tell Mama' ar gyfer llwybrau atgyfeirio. Ymgysylltu rheolaidd gyda Mosgiau a chanolfannau crefyddol gogledd Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | sefydliadau a chymunedau crefyddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a'r hyder i adrodd. | Rhoddwyd cymorth trwm i Fosg Caerfyrddin ar gyfer diwrnod agored a ganolbwyntiodd ar gael gwared ar rwystrau a herio Islamoffobia. Roedd yr adborth gan y mosg yn arbennig o gadarnhaol.<br><br>Mae ymgysylltu pellach mewn Mosgiau yng Nghaerdydd wedi bod yn llwyddiannus.<br><br>Parhaus. Mae Tîm Archwilio Trosedd Heddlu Dyfed Powys wedi ceisio gwneud y newidiadau perthnasol i'w systemau a thechnoleg gwybodaeth, ac mae'r rhain wrthi'n cael eu cyflawni yn ei adran TG.<br><br>Mae Heddlu De Cymru yn ymgysylltu'n aml ag arweinwyr ffydd amrywiol gan gynnwys y ffydd Islamaidd ac mae ganddo systemau adrodd trydydd parti amrywiol i hwyluso gwell adrodd a hyder.<br><br>Data dadansoddi Heddlu Gogledd Cymru ar gais ac fe'u defnyddir wrth ymgysylltu â chymunedau lleol. Defnyddir cyfarfod arweinwyr Mosgiau ar wahân hefyd i gyfleu'r ffigurau ac amlygu unrhyw densiynau.<br><br>Mae Heddlu Gwent yn disgwyl newidiadau i systemau i alluogi dadagregu. |
| 4.24 | Yn ystod Wythnos Ryng-ffydd, byddwn yn datblygu dulliau cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb. | Cynhaliwyd digwyddiad Rhyng-ffydd '*A window on World faiths*' ar 15 Tachwedd gyda'r nod o ddathlu'r amrywiaeth o grefyddau ar draws ardal Heddlu Dyfed Powys, yn ogystal â chynnig cyfle dysgu gwych i'r Timau Plismona Cymdogaeth. Yn hytrach na chanolbwyntio ar negeseuon negyddol am drosedd casineb, canolbwyntiodd y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â'r digwyddiad ar yr agweddau cadarnhaol ar gysylltiadau rhyng-ffydd a'u perthynas gyda'u cymunedau. Roedd yn ddigwyddiad hynod lwyddiannus a arweiniodd at ffurfiol llawer o gysylltiadau newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyda'u cymunedau. |
| 4.25 | Byddwn yn datblygu dulliau cyfathrebu yn ystod Diwrnod Cofio'r Holocost a Chofio Srebrenica i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb. | Cyd-gynhaliodd y Prif Weinidog Ddiwrnod Cofio'r Holocost gyda Chyngor Caerdydd ar 27 Ionawr. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i Arddangosfa'r Sefydliad Cofio'r Holocost yn adeilad Pierhead ar 4 Ebrill.<br><br>Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn bresennol yn y Digwyddiad Cofio Srebrenica yn adeilad Pierhead ar 12 Gorffennaf. |
| 4.26 | Yn ystod Mis Hanes LGBT, byddwn yn datblygu dulliau cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb. | Cwblhawyd ym mis Chwefror. |
| 4.27 | Byddwn yn cefnogi prosiect LGBT Consortiwm y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn hybu ymgysylltiad parhaus â grwpiau a fforymau lleol. | Bydd cymorth yn cael ei ddarparu pryd bynnag y gofynnir amdano yn Nyfed Powys.<br><br>Mae hyn yn parhau yn Heddlu De Cymru trwy swyddogion trosedd casineb mewn Unedau Rheoli Sylfaenol.<br><br>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru broses ymgynghori sefydledig lle mae nifer o grwpiau cymunedol o'r gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol yn cyfarfod gyda'r Heddlu bob tri mis.<br><br>Nid oes adnoddau wedi cael eu gwneud ar gael yn barod yng Ngwent. |
| 4.28 | Byddwn yn gweithio gyda chymunedau Trawsryweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o adrodd ac i hyrwyddo astudiaethau achos i annog hyder yn y system cyfiawnder | Fel Heddlu, mae Heddlu Dyfed Powys yn manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â'u cymunedau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol yn PRIDE ac yn nigwyddiad SPARKLE Abertawe. Er nad yw'r pwyslais wedi bod ar gasineb yn benodol, bydd yr ymgysylltu cynyddol yn arwain yn anochel at hyder cynyddol mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | troseddol. | plismona. Mae gan Heddlu Dyfed Powys holiadur ar waith ar hyn o bryd, yn gofyn am adborth gan eu cymunedau Trawsrywiol ar y gwasanaeth a ddarperir iddynt gan yr Heddlu.<br><br>Nodir fod adborth gan y gymuned Drawsrywiol yn Sir Benfro wedi awgrymu bod y gwaith sy'n parhau'n genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb yn cael effaith negyddol ar rai pobl Drawsrywiol mewn gwirionedd. Ystyriwyd ei fod yn 'codi bwganod' ac yn cael yr effaith annymunol o atal pobl rhag gadael eu cartrefi oherwydd ofn y byddant yn dod yn ddioddefwyr, pan fo ychydig iawn o droseddau casineb a digwyddiadau yn erbyn pobl Drawsrywiol yn yr ardal honno mewn gwirionedd. Bydd yr adborth hwn yn cael ei gadw mewn cof wrth gynnal unrhyw weithgareddau codi ymwybyddiaeth.<br><br>Y gobaith yw y bydd y gwaith a gyhoeddwyd gan yr Heddlu ar 31 Mawrth 2017 am gynnwys pobl Drawsrywiol - https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/amdanom-ni/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynhwysiant-trawsrywioldeb/ - yn cael yr effaith gadarnhaol o gynyddu hyder yn yr Heddlu trwy sicrhau ein bod yn Heddlu hygyrch a chynhwysol o ran darparu gwasanaethau, yn ogystal â'u gweithlu.<br><br>I Heddlu De Cymru, mae hyn yn parhau trwy swyddogion trosedd casineb mewn Unedau Rheoli Sylfaenol.<br><br>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru broses ymgynghori sefydledig lle mae nifer o grwpiau cymunedol o'r gymuned Drawsrywiol yn cyfarfod â'r Heddlu bob tri mis.<br><br>Yng Ngwent, bydd Gweithgor Hunaniaeth o ran Rhywedd yn cael ei sefydlu, gan fwrw ymlaen ag argymhellion o adolygiad Cymheiriaid |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru Gyfan a gwersi a ddysgwyd o achosion diweddar yn ymwneud â phobl drawsrywiol. Mae'r holl swyddogion rheng flaen, staff FCS a staff y ddalfa wedi derbyn sesiynau ymwybyddiaeth o Hunaniaeth o ran Rhywedd. Yn ystod Diwrnod Rhyngwladol Gwelededd Pobl Drawsrywiol, cyhoeddodd Heddlu Gwent straeon cadarnhaol am brofiadau dioddefwyr i annog pobl i hysbysu amdanynt. |
| 4.30 | Byddwn yn datblygu hyfforddiant i amlygu dulliau diogelu cyfreithiol sydd ar gael i ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol ac astudiaethau achos o erlyniadau. | Mae hyfforddiant cyfredol a ddarperir i swyddogion yn Heddlu Dyfed Powys eisoes yn cynnig enghreifftiau o droseddau a digwyddiadau casineb trwy gyfryngau cymdeithasol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol yn unol â'r camau hyn.<br><br>Dim diweddariadau gan Heddlu De Cymru.<br><br>Mae'r CPS wedi cyhoeddi Canllawiau diwygiedig ar erlyn achosion sy'n cynnwys negeseuon a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol.<br><br>[http://www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/communications_sent_via_social_media/ (CPS)](http://www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/communications_sent_via_social_media/)<br><br>Yng Ngwent, mae Swyddogion Cymorth Trosedd Casineb wedi derbyn mewnbwn gan y CPS ynghylch erlyn achosion cyfryngau cymdeithasol. |
| 4.31 | Byddwn yn datblygu rhaglenni hyfforddi ar ffurf modiwlau a phecynnau gwybodaeth ar nodweddion gwarchodedig yn parhau i fod ar gael ar gyfer y Clystyrau trwy Gontract *Hyfforddiant a Chefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf.* | Mae'r contract *Hyfforddiant a Chefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf* wedi parhau i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i staff Clwstwr er mwyn darparu'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar lefel leol. Mae'r cymorth yn parhau i gynnwys amrywiaeth o ddulliau, sgiliau a meysydd pwnc i adlewyrchu natur amrywiol y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.32 | Byddwn yn darparu cyllid am 3 blynedd ar gyfer darparu hyfforddiant CCUHP a Hawliau Plant i weithluoedd sectorau penodol ledled Cymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. | Cyllid 3 blynedd a ddyfarnwyd o fis Hydref 2015 i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a hyfforddiant Eliesha i ddarparu hyfforddiant penodol i'r sector ledled Cymru gan gynnwys addysg, heddlu, cyfryngau, chwaraeon, gofal plant ac ati. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 5.1 | Byddwn yn casglu a dadansoddi ystadegau a thueddiadau misol o atgyfeiriadau troseddau casineb trwy'r *Ganolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb*. | Cyhoeddir yn fisol. |
| 5.2 | Byddwn yn sicrhau bod dulliau hyblyg a hygyrch o adrodd ar gael ar gyfer pobl anabl i roi gwybod am droseddau casineb. | Defnyddir cynllun PEGASUS a gwasanaeth negeseuon testun nad ydynt yn rhai brys eisoes yn Nyfed Powys. Rhagwelir adolygiad pellach o hygyrchedd gwasanaethau yn 2017.<br><br>Parhaus trwy strategaeth hygyrchedd Heddlu De Cymru ac yn cynnwys cynllun *Cadw'n Ddiogel Cymru* trwy ein Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Bydd Cerdyn *Cadw'n Ddiogel Cymru* yn cael ei archwilio gan Heddlu Gwent/Heddlu Gogledd Cymru yn y flwyddyn nesaf a chanolfannau *Talk About It*.<br><br>Yng Ngwent, sefydlwyd Grŵp Mynediad Anabledd i adolygu mecanweithiau adrodd cyfredol ar gyfer pobl anabl. |
| 5.3 | Byddwn yn annog unrhyw adrodd am droseddau casineb yng ngharchardai ei Mawrhydi ac annog Cynrychiolwyr | Dim diweddariad. |

| | | |
|---|---|---|
| | Carcharorion i hybu'r adrodd. | |
| 5.4 | Byddwn yn parhau i ariannu Stonewall Cymru yn ystod 2014-17 ac yn gweithio i leihau troseddau casineb ac effaith troseddau casineb sy'n seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at sicrhau hyder cynyddol yn y system cyfiawnder troseddol a gweithio gyda chymunedau trwy'r Ganolfan Adrodd Trydydd Parti Genedlaethol. | Cynrychiolodd Cyfarwyddwr Stonewall Cymru y sefydliad ar y grŵp cynghori gweinidogol annibynnol ar drosedd casineb. Maent wedi cyhoeddi a dosbarthu amrywiaeth o ganllawiau a phosteri arloesol i annog dioddefwyr i hysbysu am droseddau casineb. Maent wedi gwella'r sail dystiolaeth trwy gyhoeddi gwaith ymchwil penodol i Gymru ar Droseddau Casineb Homoffobig.<br><br>Yn 2016-17, fe wnaeth Stonewall Cymru ddylunio, cynllunio a chyflawni gwaith maes ar gyfer ymchwil i brofiadau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol ar draws meysydd allweddol o fywyd gan gynnwys gwahaniaethu a throsedd casineb yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn 2017.<br><br>Er mwyn gweld mwy o gynnydd ac ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol ymhlith pobl Lesbiaidd, Hoyw a Ddeurywiol yng Nghymru, hysbysu cynyddol am drosedd casineb ac atgyfeiriadau i Gymorth i Ddioddefwyr, cyhoeddodd Stonewall Cymru ofynion allweddol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar drosedd casineb, diogelwch cymunedol ac ymgysylltiad heddluoedd â phobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol cyn yr etholiadau ym mis Mai. Gwahoddodd Stonewall Cymru pob un o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w Cynhadledd Cydraddoldeb yn y Gweithle a'u gwobrau 100 Cyflogwr Uchaf i ddysgu mwy am waith Stonewall Cymru ac i ddysgu a rhannu arfer gorau o ran cynhwysiant Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.<br><br>Maent hefyd yn parhau i hysbysebu eu posteri a'u canllawiau hysbysu am drosedd casineb yng ngoleuni'r cynnydd diweddar i droseddau casineb ledled y DU. |

| | | |
|---|---|---|
| 5.5 | Byddwn yn parhau i ariannu Youth Cymru 2014-17 i fynd i'r afael â throseddau casineb yn seiliedig ar hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd prosiect trans*form Cymru yn gweithio gyda sefydliadau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion trawsryweddol a mynd i'r afael â'r profiad o wahaniaethu ac eithrio y mae pobl ifanc drawsryweddol, 11-25 oed, yn ei wynebu, wrth geisio defnyddio gwasanaethau prif ffrwd. | Mae prosiect Trans*form Cymru yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol mewn sefydliadau sy'n ymdrin â phobl ifanc i'w galluogi i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth priodol i bobl ifanc trawsrywiol ac i herio agweddau gwahaniaethol, gan leihau bwlio a throsedd casineb.<br><br>Datblygwyd, lansiwyd a dosbarthwyd pecyn cymorth gan Trans*Form Cymru, yn cynnwys canllawiau, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer sefydliadau sy'n ymdrin â phobl ifanc.<br><br>Maent hefyd wedi llunio Siarter a grëwyd yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Sefydlodd nifer o hawliau sy'n perthyn i bobl ifanc trawsrywiol a'u disgwyliadau o sefydliadau i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu bodloni.<br><br>Mae Grŵp Llywio Trans*Form wedi darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewnol i weithio'n drylwyr gyda sefydliadau. Mae hyn wedi eu galluogi i gael effaith ystyrlon ar bolisi ac arfer sefydliadau a thrwy hynny effaith fwy ar bobl ifanc trawsrywiol sy'n defnyddio'r sefydliadau hynny.<br><br>Ochr yn ochr â phrif weithgareddau'r prosiect, mae Youth Cymru wedi darparu cymorth ychwanegol i aelodau gan gynnwys hysbysu am droseddau casineb. |
| 5.6 | Byddwn yn parhau i ariannu Cyngor Ffoaduriaid Cymru i gynyddu dealltwriaeth gwasanaethau o drosedd casineb a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid. | Ariannwyd Cyngor Ffoaduriaid Cymru i wneud y gwaith hwn tan 31 Mawrth 2017. Cydgysylltwyd byrddau Iechyd a Llesiant gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Uwchgyfeiriwyd unrhyw dueddiadau a nodwyd yn y cyfarfodydd hyn i gyfarfodydd amlasiantaeth rhanbarthol ac, os yn briodol, i gyfarfodydd rhanddeiliaid *Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru*. Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd hyn fel modelau o arfer da gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | ECPAT (rhwydwaith o sefydliadau a chynghreiriau cymdeithas sifil lleol gyda'r nod a rennir o roi terfyn ar gam-fanteisio rhywiol ar blant ledled y byd).<br><br>Bydd gwaith parhaus i gynorthwyo ymwybyddiaeth ac adrodd troseddau casineb yn digwydd rhwng 2017-2020 o dan *y Rhaglen Hawliau Lloches* a ariennir gan Lywodraeth Cymru. |
| 5.7 | Byddwn yn parhau i ariannu Cyngor Ffoaduriaid Cymru i gynyddu cyfraddau adrodd am achosion o droseddau casineb a phob math o drais yn erbyn menywod a merched. | Ariannwyd Cyngor Ffoaduriaid Cymru i wneud y gwaith hwn tan 31 Mawrth 2017. Lluniwyd llyfryn trosedd casineb ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid: [https://wrc.wales/news/07102016-1554/report-hate-crime](https://wrc.wales/news/07102016-1554/report-hate-crime)<br><br>Bydd gwaith parhaus i gynorthwyo ymwybyddiaeth ac adrodd troseddau casineb yn digwydd rhwng 2017-2020 o dan *y Rhaglen Hawliau Lloches* a ariennir gan Lywodraeth Cymru. |
| 5.8 | Byddwn yn parhau i ariannu Age Connect yng ngogledd-ddwyrain Cymru i gynnal prosiect Cam-drin Domestig a Throsedd Casineb Arbenigol ar gyfer Pobl Hŷn i ddarparu eiriolaeth arbenigol, codi ymwybyddiaeth, a sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed. Bydd y prosiect hwn yn asesu amlygrwydd troseddau a digwyddiadau casineb a brofir gan bobl hŷn yng ngogledd-ddwyrain Cymru. | Bu 455 o atgyfeiriadau ers dechrau'r prosiect ac roedd 154 o'r rhain yn 2016-17. Mae system atgyfeirio ar waith ac yn cael ei defnyddio gan sefydliadau fel Cymorth i Ferched Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Darparwyd sesiynau hyfforddi bob tri mis ar y cyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Hafan Cymru. Cyfarfodydd siop un stop misol yn cael eu cynnal gyda Chymorth i Ferched Wrecsam. Age Concern Gogledd-ddwyrain Cymru yn mynychu cyfarfodydd Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth yn Sir y Fflint a Wrecsam ac yn derbyn atgyfeiriadau o'r ddwy ardal. Maent hefyd yn mynychu Panel Cyfranogiad Craffu Lleol Gwasanaeth Erlyn y Goron a Fforwm Cam-drin Domestig.<br><br>Yn ystod 2016-17, cynigiodd ACNEW gymorth parhaus i bobl hŷn |

| | | |
|---|---|---|
| | | sy'n dioddef trosedd neu gamdriniaeth, boed drwy'r System Cyfiawnder Troseddol, Gweithdrefnau Diogelu Awdurdod Lleol neu unioni sifil. Cynigir asesiad cyfannol llawn, gan gynnwys archwiliad budd-daliadau a gododd £224,367.78 yn ystod oes y prosiect, gyda £112,252.73 o hyn yn 2016-17.<br><br>Cynhaliodd Prifysgol Glyndŵr werthusiad annibynnol allanol o'r prosiect ac mae wedi llunio adroddiad terfynol. |
| 5.9 | Byddwn yn ystyried y potensial i'r pedwar Heddlu yng Nghymru fonitro digwyddiadau 'seiber' mewn troseddau a digwyddiadau troseddau casineb yr adroddir amdanynt. | Mae Heddlu De Cymru yn defnyddio dulliau cyfryngau cymdeithasol ar-lein o ran radicaleiddio posibl a allai ymddangos fel trosedd casineb seiber. Mae Heddlu Gwent yn monitro ac yn adrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar Droseddau Seiber a Chyfeillio ar hyn o bryd.<br><br>Yn Nyfed Powys, bydd hyn yn bosibl ac yn cael ei wneud yn adroddiadau'r dyfodol<br><br>Mae Heddlu Gwent yn monitro ac yn adrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar Droseddau Seiber a Chyfeillio ar hyn o bryd. |
| 5.10 | Byddwn yn monitro lefelau troseddau casineb ac ystyried dull rhagweithiol o gynyddu ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth. | Dim diweddariad. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 6.1 | Byddwn yn parhau i ariannu Cymorth i Ddioddefwyr 2014-17 i ddatblygu gweithwyr achos a rhwydwaith cenedlaethol o wirfoddolwyr ar draws nodweddion gwarchodedig trwy'r *Ganolfan Adrodd a* | Bydd Cymorth i Ddioddefwyr Cymru yn parhau i ddarparu cymorth arbenigol trwy ein gweithwyr achos penodol a'n gwirfoddolwyr trosedd casineb. Ein nod yw ehangu ein sail gwirfoddolwyr ar draws Cymru a datblygu tîm mwy amrywiol ar draws y nodweddion gwarchodedig. Hefyd, trwy waith partneriaeth, bydd Cymorth i |

| | | |
|---|---|---|
| | *Chymorth Genedlaethol ar Droseddau Casineb* er mwyn cynyddu eiriolaeth a chymorth i ddioddefwyr troseddau casineb. | Ddioddefwyr yn ymgysylltu â'r holl gymunedau â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â themâu trosedd casineb newydd sy'n dod i'r amlwg, er mwyn cael gwybodaeth fwy trylwyr am anghenion dioddefwyr troseddau casineb. Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd eisiau datblygu cysylltiadau cryfach gyda Phlant a Phobl Ifanc trwy raglenni Arweinyddiaeth; pwyslais ar seiber gasineb a bwlio; datblygu pecynnau Hyfforddi'r Hyfforddwr wedi'u teilwra ledled Cymru a pharhau i godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb a ffyrdd o adrodd a derbyn cymorth. |
| 6.2 | Byddwn yn cyhoeddi ystadegau troseddau a digwyddiadau casineb, cyfraddau boddhad dioddefwyr a chyfraddau collfarnu. | Caiff y rhain eu dosbarthu bob Chwarter a'u cynnwys mewn E-fwletinau gan Gymorth i Ddioddefwyr.<br><br>Caiff data yn ymwneud â Throseddau a Digwyddiadau Casineb eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan Heddlu Dyfed Powys. Bydd y set nesaf o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi fis Ebrill nesaf.<br><br>Adroddiad Troseddau Casineb 2015-16<br><br>Caiff data CPS Cymru 2016-17 eu rhannu'n rheolaidd gyda phartneriaid a chymunedau.<br><br>Yn barhaus a thrwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae Heddlu De Cymru yn gweithio gyda Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu i ddeall yn well y berthynas rhwng bodlonrwydd dioddefwyr Gwyn a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys o ran trosedd casineb.<br><br>Mae ystadegau troseddau a digwyddiadau yn cael eu cyhoeddi gan Heddlu Gwent ar hyn o bryd ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi cyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.3 | Byddwn yn dadansoddi Data Cyfeirio ar gyfer sicrwydd ansawdd a llunio adroddiad ar ddiwedd y prosiect. | Dadansoddi parhaus, mae data ar gael bob mis yn wythnos 3. |
| 6.4 | Byddwn yn treialu'r system o gofnodi troseddau casineb yn Llys yr Ynadon Gorllewin Morgannwg ar ddiwrnod penodol yn yr wythnos er mwyn g wella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr. | Rhoddwyd gorau i'r cynllun peilot hwn gan HMCTS yn ystod sesiwn 2015-2016 oherwydd yr ystyriwyd fod y niferoedd yn rhy fach nad nid oedd yr heddlu na'r CPS o'r farn ei fod yn hyfyw. |
| 6.5 | Byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n hunangyfeirio o ddata sylfaenol trwy ddulliau ymgysylltu â gweithwyr achos a chymorthfeydd galw heibio. | Bu gostyngiad i hunan-atgyfeiriadau ym mis Ion-Chwe, ond rydym yn ceisio darganfod a yw hyn oherwydd problem casglu data o gyflwyno system adrodd newydd. Mae hyn yn cael ei ymchwilio. |
| 6.6 | Byddwn yn amlygu'r ddarpariaeth Taith a Chymorth y Dioddefwyr trwy astudiaethau achos ac arolygiadau ymchwil. | SUS, Astudiaethau Achos ac Ymchwil oll ar waith ac yn cael eu casglu'n feunyddiol. |
| 6.7 | Byddwn yn sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol yn cydymffurfio â'r cod Dioddefwyr a bod aelodau'r panel craffu yn ei gefnogi. | HMCTS yn cadeirio grwpiau amlasiantaeth sy'n ymdrin â materion cydymffurfiad ac mae gwaith ar y gweill ond heb ei gyflawni. |
| 6.8 | Byddwn yn cefnogi Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu offer addas a chyngor i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl o danau bwriadol domestig, gan gynnwys tanau bwriadol wedi'u sbarduno gan gasineb. | Darparodd Llywodraeth Cymru £369,000 o gyllid refeniw yn 2016/17 i Dimau Troseddau Tân/ Lleihau Achosion o Danau Bwriadol Awdurdodau Tân ac Achub Cymru sy'n gweithio gyda'r rheini sydd mewn perygl o danau bwriadol domestig, gan gynnwys tanau bwriadol wedi'u sbarduno gan gasineb.<br><br>Darparodd Llywodraeth Cymru £274,000 arall o gyllid cyfalaf o'r Awdurdodau Tân ac Achub hefyd, ar gyfer offer penodol i fynd i'r afael â |

| | | |
|---|---|---|
| | | cham-drin domestig. Roedd hyn yn ogystal â'r cyllid cyfalaf a ddarparwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar gyfer offer diogelwch tân domestig sy'n cynnwys darpariaeth o offer diogelwch rhag tanau bwriadol i gartrefi sy'n agored i ymosodiadau tanau bwriadol. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 7.1 | Byddwn yn rhannu canlyniadau a gwersi gan Baneli Craffu a Chynnwys Lleol. | Mae'r CPS yn rhannu dysgu perthnasol gyda phartneriaid. Mae pob un o bedwar heddlu Cymru yn aelodau o'r paneli ac yn gweithio gyda'r CPS i adolygu meysydd ar gyfer cydweithredu a gwella. |
| 7.2 | Byddwn yn parhau i wneud cynnydd ar yr argymhellion yn adroddiad dilynol y Cydadolygiad o Droseddau Casineb Anabledd. | Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn Nyfed Powys ac fe'i hadroddwyd i'r HMIC yn ddiweddar. Tebyg i Heddlu De Cymru.<br><br>Mae gan CPS Cymru Gynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb ar sail Anabledd ar waith. Darparwyd hyfforddiant i'r holl staff. Caiff pob achos Trosedd Casineb ar Sail Anabledd agored ac a gwblhawyd eu monitro gan y Cydgysylltydd Trosedd Casineb.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Ganllawiau Trosedd Casineb cynhwysfawr erbyn hyn, a gyhoeddir gan NOMS yn Llundain y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr yn gweithio'n unol â nhw.<br><br>Hefyd, mae ganddynt broses Trosedd Casineb benodol wedi ei mapio ar eu meddalwedd mapio Proses y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a adnabyddir fel EQuiP.<br><br>O ran hyfforddiant, mae gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hyfforddiant e-ddysgu ac wyneb yn wyneb Gwasanaeth cyfan i'r staff fanteisio arno erbyn hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| 7.3 | Bydd Chwaraeon Cymru yn datblygu disgwyliadau cydraddoldeb clir ar gyfer asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol a chyflenwyr chwaraeon cymunedol yn y dyfodol. | Datblygwyd fframwaith at y diben hwn. |
| 7.4 | Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (NSPCC) i ddarparu cymorth i chwaraeon sy'n ymdrin â digwyddiadau diogelu. Mae Chwaraeon Cymru yn ariannu swydd sy'n darparu'r cymorth hwn. | Mae contract Chwaraeon Cymru gydag Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC wedi cael ei adnewyddu. |
| 7.5 | Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i geisio gwasanaeth craffu a chyngor gan ei Grŵp Cyfeillion Beirniadol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. | Gwaith parhaus. |
| 7.6 | Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo datblygiad systemau amlasiantaethol o gymorth i deuluoedd, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn pwysleisio ymyrraeth gynnar a chamau atal cynnar a thynnu sefydliadau at ei gilydd i weithio gyda'r teulu cyfan er mwyn helpu i atal problemau rhag gwaethygu i fod yn argyfwng.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol i fonitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ledled Cymru. Caiff cynnydd ei asesu yn erbyn cynlluniau | Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn yr holl gymorth sydd ei angen arnynt drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu.<br><br>Trwy'r broses rheoli cyfrifon, mae darpariaeth y rhaglen yn cael ei monitro'n agos i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ymateb i anghenion a nodwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Awdurdodau Lleol sy'n amlinellu'r gwasanaethau a gomisiynwyd i'w cyflenwi ym mhob Awdurdod Lleol ar sail yr anghenion sydd wedi eu hasesu. | |
| 7.7 | Byddwn yn sicrhau bod ymdrech deg i barhau i leihau'r stigma a'r gwahaniaethu yn erbyn pobl â phroblemau iechyd meddwl yn gynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol), a phartneriaid, yn herio gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl, ac yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru, gan wneud hynny drwy drafod wyneb yn wyneb â sefydliadau allweddol, gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd. | Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu *Amser i Newid Cymru*, yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru.<br><br>Mae rhan o waith Amser i Newid Cymru wedi cynnwys gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru fel y gallant chwarae eu rhan i leihau stigma trwy wneud adduned gyhoeddus i fynd i'r afael â gwahaniaethu, a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Mae dros 70 o sefydliadau wedi llofnodi adduned Amser i Newid Cymru. |
| | **Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| 8.1 | Byddwn yn parhau i fonitro sicrwydd ynghylch troseddau casineb ynghyd â nodi achosion sy'n addas ar gyfer dyrchafiadau adran 146. | Mae Cydgysylltydd Trosedd Casineb CPS Cymru yn gweithredu trefn sicrwydd trosedd casineb fewnol drwyadl. Caiff achosion agored ac wedi'u cwblhau eu monitro. Mae perfformiad o ran dyrchafiadau dedfrydau Adran 146 wedi gwella. |
| 8.2 | Byddwn yn treialu protocol rhannu data sy'n gysylltiedig ag achosion adran 145/146 a amlygwyd ar draws y system cyfiawnder troseddol i gynorthwyo gwaith â throseddwyr. | Caiff canlyniadau Llys Ynadon lle mae dyrchafiad wedi ei wneud eu cofnodi'n briodol ar system gyfrifiadurol y llys, Libra. Gall asiantaethau â mynediad at ganlyniadau llys gael gafael ar y wybodaeth o'r fan honno. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.3 | Byddwn yn mynd i'r afael ag aildroseddu trwy raglen ymyrraeth beilot. | Cynhaliwyd cyfarfodydd, mae CRC yn dylunio'r rhaglen gyda rhagor o gymorth gan Gymorth i Ddioddefwyr pan fydd wedi ei diffinio fwy. |
| 8.4 | Daeth *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* yn gyfraith pan gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis 2016. Mae Adran 55 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i holl gontractau meddiannu gynnwys telerau sy'n trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall. Diffiniad ymddygiad o'r fath yw ymddygiad a all beri niwsans neu anfodlonrwydd ac y gellir disgwyl iddo gynnwys trosedd casineb. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r sawl sy'n gyfrifol am ymddygiad o'r fath gael eu targedu i gael eu troi allan, gan ganiatáu i ddioddefwyr ac aelodau eraill o'r teulu aros yn eu cartref.<br><br>Mae rhaglen sylweddol o waith ar y gweill ar hyn o bryd i weithredu'r Ddeddf hon, a fydd yn cynnwys llunio tua 25 darn o is-ddeddfwriaeth ar wahân. Bydd y rhain yn cynnwys rheoliadau ar: y gofyniad i bob anheddiad fod yn addas i bobl fyw ynddo; y telerau ategol i'w cynnwys mewn contractau meddiannu; a'r contractau enghreifftiol i'w defnyddio gan landlordiaid. Am ragor o wybodaeth ewch i www.cymru.gov.uk/rhentucartrefi. | Mae'r gwaith i weithredu'r Ddeddf yn parhau. Mae'r Ddeddf yn darparu i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth esboniadol gael ei chynnwys mewn datganiadau ysgrifenedig contractau. Bydd hyn yn cynnwys esboniad o gwmpas y tymor ymddygiad gwaharddedig. Bydd yr holl wybodaeth esboniadol o'r fath yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.5 | Byddwn yn treialu System Datrys Tensiwn Cymunedol (CAT-D) i asesu teimladau'r gymuned ar gyfryngau cymunedol yn ystod cyfnodau o densiwn mawr. | Wedi ei ohirio. |
| 8.6 | Byddwn yn gwneud gwaith ymchwil ar:<br><br>• y cysylltiad posibl rhwng mynegiant casineb ar-lein a throseddau casineb i ffwrdd o'r we<br>• nodi a modelu lledaeniad cynnwys gwrth-semitig ar Twitter. | Mae gwaith ymchwil yn parhau. |